| | |
|---|---|
| **From:** | Jones Gareth (AMG) |
| **To:** | Wylfa Newydd |
| **Subject:** | YML/FW: Adroddiad Datganiad o Effaith Lleol / Statement of Local Impact Report - Cyngor Gwynedd |
| **Date:** | 04 December 2018 21:10:52 |
| **Attachments:** | Atodiad 2 - Appendix 2 Gwynedd Wylfa Newydd Papur Dadleoli - Displacement Paper 1.0..pdf<br>Atodiad 3 - Appendix 3 - Twristiaeth - Tourism STEAM DATA.pdf<br>Atodiad 4 Crynodeb Gweithredol Adolygiad Digartrefedd Gwynedd.pdf<br>Appendix 4 Gwynedd EXEC Summary Homelessness Review.pdf<br>Atodiad 5 - Appendix 5 Adroddiad Effaith Wylfa Newydd - Impact Report .pdf<br>LIR Fersiwn PINS Cymraeg.pdf<br>LIR Fersiwn PINS Saesneg.pdf |

---

**Ein cyfeirnod: 20010958**
**Eich cyfeirnod: EN010007**
**Yr Arolygiaeth Gynllunio / The Planning Inspectorate**
**Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol / National Infrastructure Planning**

**4 Rhagyr / 4 December 2018**

Annwyl Syr / Fadam

**Parthed: Cais DCO ar gyfer gorsaf niwclear Wylfa Newydd**
**Adroddiad Datganiad o Effaith Lleol gan Gyngor Gwynedd**

Atodir adroddiad datganiad o effaith lleol a gyflwynir ar ran Cyngor Gwynedd ynglŷn a'r uchod yn unol ac amserlen yr archwiliad.

Yn gywir,

Gareth Jones
Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd

Dear Sir / Madam,

**Reference: DCO application for Wylfa Newydd Power Station**
**Statement of Local Impact Report by Gwynedd Council**
Please find attached a statement of local impact report submitted on behalf of Gwynedd Council in respect of the above in accordance with the timetable for the examination.

Yours faithfully,

Gareth Jones
Senior Manager, Planning and Public Protection Service

**Gareth Jones**
**Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd /**
**Senior Manager, Planning and Public Protection Service**
**Adran Amgylchedd / Environment Department**
**Cyngor Gwynedd / Gwynedd Council**
**Gwasanaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd / Planning and Public Protection Service**
**Ffordd y Cob, Pwllheli, Gwynedd LL53 5AA**

**01766 771000**
**garethjones3@gwynedd.llyw.cymru**

---

This email has been scanned by the Symantec Email Security.cloud service.
For more information please visit http://www.symanteccloud.com

---

# Adolygiad Digartrefedd 2018

# Crynodeb Gweithredol



## Cyngor Gwynedd

## Crynodeb Gweithredol

Medi 2018


**Prif Gyswllt:** **Laura Paterson**
**E-bost:** **laura.paterson@arc4.co.uk**
**Rhif ffôn:** **0800 612 9133**
**Gwefan:** **www.arc4.co.uk**



*© 2018 arc4 Limited (Company No. 06205180)*

**Paratowyd yr Adolygiad Digartrefedd hwn gan arc4 Ltd. ar ran Cyngor Gwynedd. Mae'r Adolygiad ei hun yn cynnig dadansoddiad manwl o lefelau a natur digartrefedd, awdit o'r gwasanaethau ac adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael i'w wario ar ddigartrefedd yn y sir.**

**Mae hefyd yn darparu sail dystiolaeth ar gyfer Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol Gogledd Cymru, ochr yn ochr â Chynllun Gweithredu Darpariaeth Leol Digartrefedd Gwynedd.**

*Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfarwyddiadau a gofynion penodol ein cleient. Nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw drydydd parti, ni ddylent ddibynnu arno ac ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti.*

*Nid yw arc4 Limited yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb neu atebolrwydd am, ac yn gwneud dim cynrychiolaeth neu warant ynghylch cywirdeb neu gyflawnrwydd unrhyw wybodaeth trydydd parti (gan gynnwys data) a gynhwysir yn y ddogfen hon.*

*Cyfeiriad Cofrestredig: arc4, 41 Clarendon Road, Sale Manchester M33 2DY*
*E-bost: contact@arc4.co.uk[www.arc4.co.uk](http://www.arc4.co.uk)*
*arc4 Limited Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr 6205180 Rhif Cofrestru TAW: 909 9814 77*
*Cyfarwyddwyr - Helen Brzozowski – Michael Bullock*

# 10 Prif Ganfyddiad

- Mae galw cynyddol ar y gwasanaeth Datrysiadau Tai yn dilyn gweithrediad Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae nifer cynyddol o bobl yn ddigartref neu yn cael eu bygwth â digartrefedd yng Ngwynedd. Mae tystiolaeth trwy gydol yr Adolygiad yn awgrymu y bydd y cynnydd hwn yn parhau.
- Mae cyfran uchel iawn o bobl sengl yn ddigartref neu yn cael eu bygwth â digartrefedd. Bydd angen datblygu dewisiadau tai a datrysiadau atal penodol er mwyn cyfarch anghenion pobl sengl. Pobl sengl sydd yn aml ag anghenion niferus a chymhleth.
- Mae'r gwasanaeth Datrysiadau Tai o dan cryn bwysau, sy'n cynyddu ymhellach yn sgil ardal ddaearyddol fawr iawn y Sir, a'r modd gwasgaredig y darperir y gwasanaeth. Mae angen buddsoddi mewn adnoddau staffio ychwanegol, ynghyd ag adolygu systemau a phrosesau.
- Mae niferoedd uchel o bobl mewn llety dros dro, a defnydd uchel o lety Gwely a Brecwast. Mae angen gwneud gwaith pellach i lwyr ddeall yn well anghenion llety dros dro, a sut yr eid i'r afael â hyn orau, gan gynnwys y galw amcanol i'r dyfodol, drwy ddatblygu cynllun llety dros dro.
- Mae galw uchel am dai cymdeithasol, ac nid yw darpariaeth y stoc tai cymdeithasol yn cyd-fynd â'r galw am y llety hwn. Mae hyn yn arbennig o wir am lety dwy ystafell wely, gyda'r galw yn gorbwyso'r cyflenwad yn sylweddol.
- Mae'r gwasanaeth Datrysiadau Tai wedi cael llwyddiant arwyddocaol drwy rwystro digartrefedd, gyda chanran y bobl lle rhwystrwyd neu gynorthwywyd eu digartrefedd yng Ngwynedd yr uchaf ledled Gogledd Cymru, ac yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd lefel y llwyddiant yma yn gynaliadwy yn sgil pwysau ar y gwasanaeth, fel y nodwyd uchod.
- Yr arfau atal mwyaf llwyddiannus a ddefnyddir yw helpu pobl i symud i dai cymdeithasol a llety rhent preifat. Mae angen gwneud mwy o waith i gynyddu nifer y bobl sy'n cael eu rhwystro rhag colli eu llety presennol.
- Dyma brif achosion digartrefedd yng Ngwynedd:
    - Colli llety rhent neu glwm
    - Gadael carchar
    - Rhieni a pherthnasau yn amharod i letya mwyach
    - Perthynas yn chwalu
    - Cam-drin Domestig
- Mae galw cynyddol am wasanaethau Cefnogi Pobl a ariennir, byddai asesiad anghenion ffurfiol yn cynnig dealltwriaeth gynhwysfawr o'r angen a'r galw am gefnogaeth yn ymwneud â thai ar draws y Sir, a fyddai wedyn yn hysbysu strategaeth gomisiynu gadarn.
- Mae'n mynd yn gynyddol anoddach i gwsmeriaid Datrysiadau Tai gael mynediad i lety rhent preifat; mae hyn yn rhannol oherwydd fforddiadwyedd, marchnad gystadleuol, ac amharodrwydd gan landlordiaid i dderbyn tenantiaid sy'n derbyn budd-daliadau, yn arbennig mewn perthynas â phryderon yn ymwneud â Thaliadau Uniongyrchol. Bydd yr heriau hyn yn cynyddu ymhellach gyda dyfodiad datblygiad Wylfa, a fydd yn creu galw ychwanegol am lety rhent preifat yn yr ardal.

# 1. Cefndir

Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn gofyn i bob awdurdod lleol gynnal adolygiad o ddigartrefedd bob pedair blynedd, i ddatblygu a chyhoeddi Strategaeth Ddigartrefedd ar sail yr adolygiad hwn ac i ymgynghori â sefydliadau statudol a gwirfoddol lleol eraill.

Bydd yr adolygiad hwn yn darparu sail ar gyfer dull strategol i fynd i'r afael â digartrefedd a'i rwystro, a bydd yn gymorth i adeiladu ar y gwaith cadarnhaol sydd yn digwydd yn barod yng Ngwynedd i ddarparu unigolion sydd angen llety ag amrywiaeth o ddewisiadau tai i atal a lleihau digartrefedd ar draws y sir.

Mae'r Crynodeb Gweithredol hwn yn rhoi amlinelliad o brif ganfyddiadau'r adolygiad, dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol, a'r camau nesaf o ran ymatebion strategol.

## Methodoleg

Mae gofyn i'r adolygiad digartrefedd gynnwys:

- Dadansoddiad o lefelau digartrefedd y gorffennol, y presennol a'r dyfodol
- Awdit o'r gwasanaethau a anelir at atal, lletya a chefnogi pobl sydd yn neu a allai ddod yn ddigartref
- Adolygiad o'r adnoddau sydd ar gael i wario ar ddigartrefedd o fewn y Sir

Defnyddiodd y broses adolygu amrediad eang o ffynonellau, gan gynnwys ystadegau digartrefedd, data cefnogi pobl, data cyngor ar dai a chyfres o ymarferion ymgynghori.

Mae nifer o faterion cymhleth a allai arwain at ddigartrefedd, a nifer ohonynt y tu allan i sgôp yr Awdurdod Lleol. Felly, wrth roi'r adolygiad hwn at ei gilydd, mae'r Cyngor wedi gweithio'n agos ag amryw asiantaethau statudol a gwirfoddol eraill.

Dylid ystyried yr adolygiad hwn fel un aml-asiantaethol sy'n cydnabod bod gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i atal digartrefedd a datblygu tai cynaliadwy tymor-hir a datrysiadau cefnogi.

Mae ymgynghori wedi bod yn ganolog i ddatblygiad yr Adolygiad Digartrefedd a bydd yn parhau i fod yn elfen bwysig wrth ddatblygu Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol a chynllun darpariaeth leol Gwynedd.


Cynhaliwyd ymgynghoriad drwy amryw o wahanol ddulliau gyda chwsmeriaid, asiantaethau partner a staff y Cyngor.

Roedd hyn yn cynnwys grwpiau ffocws, cyfweliadau â budd-ddeiliaid, holiaduron ac arolygon ar-lein gyda chwsmeriaid.

# Digartrefedd mewn Ffigyrau

## Ceisiadau am Wasanaeth

Ers cyflwyno Deddf Tai (Cymru) 2014, mae'r galw ar Wasanaeth Datrysiadau Tai Gwynedd wedi cynyddu. Roedd cynnydd o 36% mewn pobl yn cael mynediad i'r gwasanaeth yn 2017/18 o gymharu â 2014/15 (o dan y ddeddfwriaeth flaenorol). Mae'r cynnydd hwn yn y galw yn adlewyrchu cynnydd mewn digartrefedd ar draws Gogledd Cymru.




Ffig 1: Ffynhonnell: Cronfa ddata Datrysiadau Tai

Mae'r gwasanaeth yn darparu apwyntiadau a sesiynau galw i mewn o bedwar lleoliad ar draws y Sir. Yn 2016/17, roedd rhaniad gymharol gytbwys rhwng y galw yng Ngogledd Cymru (387) a De Cymru (335); fodd bynnag, yn 2017/18, cynyddodd y galw yn sylweddol yng Ngogledd Cymru (481), gan leihau fymryn yn y De (279).

## Asesiadau

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r deilliannau a gofnodwyd o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014.

| Deilliannau | 2015/16 Cyfanswm | 2015/16 sy'n sengl | 2016/17 Cyfanswm | 2016/17 sy'n sengl | 2017/18 Cyfanswm | 2017/18 sy'n sengl |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y ceisiadau am gymorth a arweiniodd at asesiad A62 | - | - | 622 | 397 | 629 | 377 |
| Anghymwys | 0 | 0 | 3 | 2 | 1 | 1 |
| Cymwys ond ddim yn ddigartref nac o dan fygythiad o fod yn ddigartref | 11 | 4 | 19 | 14 | 24 | 14 |
| Dan fygythiad o fod yn ddigartref; darparwyd cymorth atal (A66) | 162 | 85 | 209 | 100 | 157 | 82 |
| Digartref, yn ddarostyngedig i ddyletswydd i gynorthwyo i sicrhau llety (A73) | 150 | 63 | 206 | 122 | 318 | 234 |
| Cymwys, digartref ond nid yn flaenoriaeth | 8 | 0 | 2 | 2 | 12 | 12 |
| Cymwys, digartref ac yn flaenoriaeth ond yn fwriadol | 3 | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cymwys, digartref yn anfwriadol ac yn flaenoriaeth (A75) | 17 | 5 | 35 | 12 | 45 | 21 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y deilliannau | 351 | 159 | 474 | 252 | 557 | 364 |
| Cyfanswm yr ataliwyd/cynorthwywyd | 249 | 131 | 322 | 153 | 352 | 217 |

Yn 2017/18, roedd cyfanswm o 629 cais am gymorth a arweiniodd at asesiad A62 (lle'r oedd rheswm i gredu bod y person yn ddigartref neu o dan fygythiad o fod yn ddigartref), daeth 60% o'r ceisiadau hyn gan bobl sengl.

Mae cyfran uchel iawn o bobl sengl yn ddigartref neu yn cael eu bygwth â digartrefedd ar draws Gwynedd.

Yn dilyn yr asesiad yn 2017/18, cafodd cyfanswm o 157 o bobl, gyda 52% o'r rheini yn bobl sengl, eu hasesu fel bod o dan fygythiad o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod, ac roedd dyletswydd atal yn ddyledus iddynt o dan A66. 25% o asesiadau yn unig a arweiniodd at ddyletswydd atal (dyletswydd A66) yn bod yn ddyledus - awgryma hyn bod nifer o gwsmeriaid yn cysylltu â'r gwasanaeth unwaith iddynt ddod yn ddigartref; golyga hyn bod cyfleoedd am ymyrraeth gynnar ac atal effeithiol yn cael eu colli.

Yn 2017/18, cafodd 318 o bobl, gyda 74% o'r rheini yn bobl sengl, eu hasesu fel bod yn ddigartref, ac roedd dyletswydd cynorthwyo gyda'u digartrefedd yn ddyledus iddynt o dan A73 (dyletswydd i'w cynorthwyo i ddod o hyd i lety amgen). Mae dyletswydd i gynorthwyo yn ddyledus i gyfran uchel iawn o bobl sengl (dyletswydd A73). Er nad yw'r rhesymau am hyn yn eglur, mae posibilrwydd bod y gwasanaeth yn ei chael yn anodd atal pobl sengl rhag dod yn ddigartref oherwydd diffyg dewisiadau sydd ar gael, felly mae'n bosib bod pobl sengl yn symud ymlaen i A73. Mae posibilrwydd hefyd nad yw pobl sengl yn cysylltu â'r gwasanaeth am gymorth hyd nes eu bod yn ddigartref. Mae hyn hefyd yn wir am nifer o Awdurdodau eraill ar draws Gogledd Cymru.

Yn 2017/18, canfuwyd bod 45 person yn gymwys, gyda 47% o'r rhain yn bobl sengl, yn ddigartref yn anfwriadol ac yn flaenoriaeth, ac roedd dyletswydd i ddarparu llety o fewn y sector rhent preifat neu dai cymdeithasol yn ddyledus iddynt (dyletswydd A75).

## Achosion Digartrefedd


Prif achos digartrefedd yng Ngwynedd yw colli llety rhent preifat, a phobl sy'n gadael carchar yn dilyn hynny.

Mae'r prif achosion eraill yn cynnwys perthnasau yn torri i lawr, cam-drin domestig, a theulu/ffrindiau yn gofyn i'r person adael.

Mae'r rhain yn adlewyrchu prif achosion digartrefedd ar draws Gogledd Cymru. Er bod gadael carchar yn un o'r pum achos uchaf dros ddigartrefedd ar draws Gogledd Cymru, yn Wrecsam a Gwynedd, dyma oedd yr ail achos uchaf dros ddigartrefedd.


## Atal a Chymorth

Yn 2017/18, o'r 157 person oedd â dyletswydd i'w hatal rhag dod yn ddigartref (A66) yn ddyledus iddynt, cafodd 114 person (73%) eu hatal yn llwyddiannus rhag dod yn ddigartref. O'r rhain, cynorthwywyd 38 ohonynt i aros yn eu llety presennol, gan gyfrif am 33% o'r holl ddeilliannau atal dan A66.




Ffig 3: Ffynhonnell: Cofnodion Llywodraeth Cymru

Yr arf atal mwyaf llwyddiannus a ddefnyddiwyd i alluogi pobl i aros yn eu llety presennol yn 2017/18 oedd taliadau ariannol (a allai gynnwys Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai, neu daliadau o'r gronfa atal digartrefedd i dalu am ddifrod neu ôl-ddyledion) a datrys problemau tai a budd-daliadau lles.




Ffig 4: Ffynhonnell: Cofnodion Llywodraeth Cymru

Yn 2017/18, ataliwyd cyfanswm o 76 person rhag dod yn ddigartref o dan A66, drwy eu cynorthwyo i ddod o hyd i lety amgen, a chafodd 197 person arall gymorth gyda'u digartrefedd o dan A73.

Yr arf mwyaf llwyddiannus i alluogi pobl i sicrhau llety amgen oedd darparu cymorth i gael mynediad i dai cymdeithasol, ac roedd hyn yn wir am 100 o achosion. Cynorthwywyd 117 person arall i gael mynediad i'r sector rhentu preifat.

Yn 2017/18, cafodd 62% o'r rheini a oedd â dyletswydd cymorth yn ddyledus iddynt eu cynorthwyo'n llwyddiannus.


Roedd gan Wynedd y ganran uchaf o ddeilliannau atal llwyddiannus (Adran 66) a deilliannau cynorthwyo digartrefedd llwyddiannus (Adran 73) yng Ngogledd Cymru yn ystod 2016-17 ar 78% a 66%, ac yn uwch na chyfartaledd Cymru.

## Defnydd o Lety Dros Dro

Ar ddiwedd mis Mawrth 2016, roedd 77 person mewn llety dros dro; cynyddodd hyn i 93 ym mis Mawrth 2017.

Ar ddiwedd mis Mawrth 2016, roedd 12 person mewn llety gwely a brecwast; cynyddodd y ffigwr hwn i 21 ym mis Mawrth 2017.

Mae'r graff isod yn dangos nifer y bobl y rhoddwyd llety iddynt mewn llety dros dro (gan gynnwys Gwely a Brecwast) ar ddiwedd bob blwyddyn. Mae'r ffigwr hwn yn giplun mewn amser, ac felly nid yw'n cynrychioli cyfanswm nifer y bobl a leolir mewn llety dros dro yn ystod y flwyddyn.





Ffig 5: Ffynhonnell: COFNODION LLYWODRAETH CYMRU

Cynyddodd y defnydd o lety dros dro yn sylweddol o 21% yn 2017/18. Ni chyfrifir am y cynnydd hwn gan gynnydd cyffredinol yn y galw am y gwasanaeth, gan fod nifer y cleientiaid sy'n cysylltu â'r gwasanaeth yn parhau i fod yn gymharol sefydlog. Fodd bynnag, cysylltodd cyfran uwch o gleientiaid â'r tîm Datrysiadau Tai pan oeddent yn ddigartref (A73) yn hytrach na phan oeddent dan fygythiad o ddod yn ddigartref (A66) yn 2017/18 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn 2017/18, lleolwyd cyfanswm o 365 o bobl mewn llety dros dro yn ystod y flwyddyn, sef cynnydd o 16% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd mwyaf mewn cleientiaid yn cael eu lleoli gan y swyddfa yn Arfon.

Mae'r graff isod yn dangos nifer y bobl y rhoddwyd llety iddynt mewn llety Gwely a Brecwast ar ddiwedd bob blwyddyn. Mae'r ffigwr hwn yn giplun mewn amser, ac felly nid yw'n cynrychioli cyfanswm nifer y bobl a leolir mewn llety Gwely a Brecwast yn ystod y flwyddyn.




*Ffig 6: Ffynhonnell: COFNODION LLYWODRAETH CYMRU*

Mae defnydd o lety Gwely a Brecwast wedi cynyddu'n sylweddol dros y tair blynedd diwethaf, gyda chynnydd o 75% yn ei ddefnydd rhwng 2016/17 a 2017/18.

Mae cynnydd yn y defnydd o lety dros dro a Gwely a Brecwast ar draws pob un o awdurdodau Gogledd Cymru.

Mae defnydd o lety Gwely a Brecwast yn cynyddu yng Ngwynedd; mae hyn yn rhannol oherwydd diffyg llety dros dro mwy addas, a chynnydd yn nifer y bobl sy'n cysylltu â'r gwasanaeth ar y pwynt pan maent eisoes yn ddigartref, ac mae mewnbwn isel yn yr unedau sydd ar gael oherwydd diffyg dewisiadau symud fforddiadwy.

# Mynediad i Lety

## Tai Cymdeithasol

Yn 2010, trosglwyddodd Cyngor Gwynedd ei stoc dai i Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG). Yng Ngwynedd, mae tai cymdeithasol yn cyfrif am 16% o gyfanswm y stoc dai. O'r stoc, mae 60% yn llety tair ystafell wely, a dim ond 8% o'r stoc sy'n llety un ystafell wely, mewn cyferbyniad â 40% o ymgeiswyr y Gofrestr Tai sy'n ceisio llety un ystafell wely.

Mae trosiant isel mewn Tai Cymdeithasol, gyda chyfartaledd blynyddol o 550 llety yn cael eu gosod; mae'r ffigwr hwn yn gostwng bob blwyddyn. Yn 2017/18, roedd 129 o'r llety hyn yn llety un ystafell wely i anghenion cyffredinol, a 217 ohonynt yn llety dwy ystafell wely.

Ar ddiwedd mis Gorffennaf 2018, roedd ychydig llai na 2,000 o bobl ar y Gofrestr Tai. Mae'r galw mwyaf am lety dwy ystafell wely i anghenion cyffredinol, a ddilynir gan lety un ystafell wely.

Mae dadansoddiad o'r gofrestr tai lleol yn erbyn y Stoc Tai Cymdeithasol yn awgrymu nad yw'r stoc dai yn cyd-fynd â'r galw.

Roedd lefel y bobl a gafodd eu troi allan o dai gan Cartrefi Cymunedol Gwynedd ar ei uchaf yn 2014/15, ac mae'n debygol bod hyn yn gysylltiedig â chyflwyniad y dreth ystafell wely. Ers hynny, mae nifer y bobl sy'n cael eu troi allan wedi gostwng ychydig, fodd bynnag mae'r ffigwr ar gyfer 2017/18 yn parhau i fod yn uwch na'r lefelau cyn 2014/15, ac yn gyfystyr â 0.4% o'r stoc dai. Ni fu modd cymharu hyn â'r Cymdeithasau Tai eraill sy'n gweithredu ar draws Gwynedd gan na chyflenwyd y wybodaeth hon ar gyfer yr Adolygiad Digartrefedd.

### Llety â Chymorth

Mae galw uchel am lety â chymorth a gwasanaeth cefnogaeth yn ôl yr angen. Yn 2017/18, roedd cyfanswm o 1876 cyfeiriad i wasanaethau Cefnogi Pobl a ariennir; dyma gynnydd o 38% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Yn 2016/17, nid oedd cyfanswm o 66 unigolion mewn gwasanaethau sy'n seiliedig ar lety yn gallu symud ymlaen oherwydd diffyg llety, a 225 pellach oedd â mynediad i wasanaethau cefnogaeth yn ôl yr angen.

### Sector Rhentu Preifat

Yng Ngwynedd, mae'r sector rhentu preifat yn cyfrif am 15% o gyfanswm y stoc dai. O ystyried y cyfyngiadau ar faint a buddsoddiad y stoc rhentu cymdeithasol, mae'n elfen hanfodol o ddarpariaeth tai i bobl a fyddai'n ddigartref fel arall.

Nid yw'r sector rhentu preifat yng Ngwynedd yn farchnad arbennig o fforddiadwy, mae niferoedd isel o eiddo o fewn lefelau Lwfans Tai Lleol, gyda phobl sy'n derbyn Lwfans Tai Lleol yn aml yn gorfod dod o hyd i gyllid sylweddol i gyfaddawdu am y diffyg mewn rhent.

### Llety a Rennir

Mae llety a rennir yn gynyddol ddod yr unig ddewis tai fforddiadwy i bobl ifanc sengl, ond mae cyflenwad cyfyngedig ac mae llawer o'r llety hwn ym Mangor wedi'i dargedu tuag at y farchnad myfyrwyr.


Mae diffyg llety a rennir yn cyfyngu'n sylweddol ar y dewisiadau tai fforddiadwy sydd ar gael i bobl sengl, yn enwedig y rheini sydd o dan 35 mlwydd oed ac yn derbyn lwfans tai lleol.

## Yr Angen am Dai Fforddiadwy

Mae Asesiad Marchnad Dai Lleol 2018 yn adnabod diffyg blynyddol o 231 tŷ fforddiadwy ar draws Gwynedd.

## Cysgu ar y Stryd

Dangosodd cyfrifiad swyddogol y bobl sy'n cysgu ar y stryd ym mis Tachwedd 2017 bod 3 pherson yn cysgu ar y stryd yng Ngwynedd, fodd bynnag, amcangyfrifodd gwaith a gynhaliwyd a thystiolaeth a gasglwyd yn y cyfnod cyn y cyfrifiad y gallai fod 30 person ychwanegol yn cysgu ar y stryd yng Ngwynedd.




*Ffig 7: Ffynhonnell: StatsCymru*

Yn ystod dau chwarter olaf 2017/18, gweithiodd y gwasanaeth allgymorth a gomisiynwyd gyda chyfanswm cyfun o 184 o bobl yn cysgu ar y stryd, yn cysgu ar soffas, a'r rheini sydd dan fygythiad o ddod yn ddigartref ar draws Gwynedd.

Mae mwyafrif y bobl sy'n cysgu ar y stryd ym Mangor, fodd bynnag, mae unigolion hefyd yn cysgu ar y stryd yn ardaloedd mwy gwledig y Sir. Mae lefelau cynyddol o gysgu ar y stryd yn her i Wynedd, ynghyd â nifer o Awdurdodau Lleol eraill yng Ngogledd Cymru.

# Prif Ganfyddiadau

Roedd cyflwyniad Deddf Tai (Cymru) 2014 yn nodi newid deddfwriaethol a diwylliannol yn ymateb y Cyngor i ddigartrefedd. Mae Cyngor Gwynedd yn gosod blaenoriaeth uchel ar atal digartrefedd, gan ganolbwyntio ar ddarparu datrysiadau wedi'u teilwra'n unigol ar gyfer ei gwsmeriaid.

Dyma brif ganfyddiadau'r Adolygiad Digartrefedd:

## Lefelau Digartrefedd ar draws Gwynedd

- Mae galw cynyddol ar y gwasanaeth Datrysiadau Tai yn dilyn gweithrediad Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae nifer cynyddol o bobl yn ddigartref neu yn cael eu bygwth â digartrefedd yng Ngwynedd. Mae tystiolaeth trwy gydol yr Adolygiad yn awgrymu y bydd y cynnydd hwn yn parhau.
- Dyma brif achosion digartrefedd yng Ngwynedd:
  - Colli llety rhent neu glwm
  - Gadael carchar
  - Rhieni a pherthnasau yn amharod i letya mwyach
  - Perthynas yn chwalu
  - Cam-drin Domestig
- Mae niferoedd uchel o bobl mewn llety dros dro, a defnydd uchel o lety Gwely a Brecwast. Mae angen gwneud gwaith pellach i lwyr ddeall yn well anghenion llety dros dro, a sut yr eid i'r afael â hyn orau, gan gynnwys y galw amcanol i'r dyfodol, drwy ddatblygu cynllun llety dros dro.
- Mae cyfran uchel iawn o bobl sengl yn ddigartref neu yn cael eu bygwth â digartrefedd. Bydd angen datblygu dewisiadau tai a datrysiadau atal penodol er mwyn cyfarch anghenion pobl sengl.

## Cysgu ar y Stryd

- Mae nifer gynyddol o bobl yn cysgu ar y stryd ar draws Gwynedd, fel y dangoswyd gan nifer o ffynonellau data a chefnogwyd gan ymatebion i ymgynghoriad
- Mae data gan y gwasanaeth allgymorth yn nodi problem sylweddol gyda chysgu ar y stryd a chysgu ar soffas ym Mangor. Er mwyn cael gwell dealltwriaeth o gysgu ar y stryd yng Ngwynedd a gallu adnabod unrhyw dueddiadau a phatrymau, mae angen datblygu bas data neu daenlen syml er mwyn cofnodi canfyddiadau allgymorth.
- Mae angen datblygu gwasanaethau a dargedir mewn ymateb i'r angen hwn sy'n tyfu, gan gynnwys darpariaeth mynediad uniongyrchol hyblyg yn unol â chynnig *No Second Night Out* (NSNO).

## Y Gwasanaethau sydd ar Gael i Atal Digartrefedd

- Mae gwasanaeth Datrysiadau Tai Gwynedd yn darparu gwasanaeth o ansawdd da iawn, ac mae wedi cael llwyddiant arwyddocaol drwy rwystro a chynorthwyo gyda digartrefedd, gyda ffocws

cryf ar roi'r cwsmer yn gyntaf. Mae integreiddiad y timau Datrysiadau Tai, Cofrestr Tai a Chefnogi Pobl yn darparu gwasanaeth integredig i gwsmeriaid, fodd bynnag, efallai bod cyfleoedd pellach i symleiddio'r gwaith a darparu gwasanaeth mwy cysylltiedig.

- Mae maint llwyth achosion presennol y Swyddogion Datrysiadau Tai yn anhylaw ac nid yw'n gynaliadwy yn yr hirdymor. Mae'r llwyth achosion uchel yn effeithio ar allu'r tîm i atal a chynorthwyo gyda digartrefedd yn llwyddiannus, gydag effaith anochel hyn felly ar lefel y lleoliadau mewn llety dros dro a Gwely a Brecwast. Mae angen adolygu llwyth achosion, strwythur, systemau, prosesau ac adnoddau i sicrhau bod llwyth achosion yn aros ar lefel ymarferol a bod cyfleoedd am atal effeithiol yn cael eu huchafu.
- Mae ardal ddaearyddol fawr a natur wledig y Sir yn peri heriau penodol yng nghyswllt darpariaeth gwasanaeth. Darperir y gwasanaeth o bedwar lleoliad ar draws Gwynedd. Er bod hyn yn gwneud y gwasanaeth yn hygyrch i gwsmeriaid, fodd bynnag, mae'n effeithio'n sylweddol ar adnoddau staff, ac, o ganlyniad, llwyth achosion a morâl. Gellid cynnal gwerthusiad dewisiadau bach i ystyried sut y gellid darparu'r gwasanaeth Datrysiadau Tai wrth symud ymlaen, darparu gwasanaeth effeithiol ar draws Gwynedd gyfan, tra'n lleihau'r effaith ar staff.
- Mae'r gwasanaeth Datrysiadau Tai yn gallu atal a chynorthwyo gyda digartrefedd yn llwyddiannus, ac roedd ganddo'r ganran uchel o achosion atal a chynorthwyo llwyddiannus ledled Gogledd Cymru yn 2016/17. Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn gynaliadwy.
- Ceir nifer o enghreifftiau o weithio mewn partneriaeth wych i atal digartrefedd, ac mae angen parhau i ddatblygu'r partneriaethau hyn a gweithredu protocolau ar y cyd. Mae angen dull mwy cyfun at ymyrraeth gynnar ac ataliad gyda chydweithwyr gofal cymdeithasol oedolion. Mae hyn yn benodol wir ar gyfer ymateb i gleientiaid sydd ag anghenion cymhleth, gan gynnwys iechyd meddwl gwael, i sicrhau bod y gefnogaeth gywir mewn lle i ddatrys yr anghenion cefnogaeth a meddygol sylfaenol.
- Mae angen cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth Datrysiadau Tai a'r gwasanaethau eraill sydd ar gael ar draws Gwynedd i sicrhau bod partneriaid a chwsmeriaid yn ymwybodol o'r hyn sydd ar gael, a sut i gael mynediad ato. Mae hyn yn arbennig o bwysig i gyflawni ymyrraeth gynnar ac ataliad.
- Mae angen system TGCh integredig addas i bwrpas ar gyfer digartrefedd, cefnogi pobl a'r Gofrestr Tai.

## Y Llety a'r Gefnogaeth sydd Ar Gael i Bobl Ddigartref neu Bobl sydd dan Fygythiad o fod yn Ddigartref

- Perchen-feddiannaeth yw'r brif ddaliadaeth yng Ngwynedd. Fodd bynnag, mae cael mynediad at y denantiaeth hon wedi dod yn gynyddol anoddach o ystyried bod prisiau tai wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chymhareb fforddiadwyedd prisiau tai yn 2017 yn 5.8, o gymharu â 5.42 yng Nghymru.
- Mae'r sector rhentu cymdeithasol yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu llety fforddiadwy yng Ngwynedd. Fodd bynnag, mae nifer y tai rhent a roddir i denantiaid newydd yn gorbwyso nifer y bobl ar y gofrestr tai ymhell, ac mae yn arbennig o wir am lety i bobl sengl a llety dwy ystafell wely.

- Mae'r sector rhentu preifat yn chwarae rhan bwysig mewn darparu llety ar gyfer amryw bobl a grwpiau incwm nad ydynt yn gallu cael mynediad i berchen-feddiannaeth neu rentu cymdeithasol. Mae mynediad i'r sector rhentu preifat yn cael ei ddefnyddio'n aml i atal digartrefedd. Fodd bynnag, colli llety rhentu preifat yw'r prif reswm am ddigartrefedd yng Ngwynedd. Mae'n mynd yn gynyddol anoddach i gwsmeriaid Datrysiadau Tai gael mynediad i lety rhent preifat; mae hyn yn rhannol oherwydd fforddiadwyedd, marchnad gystadleuol, ac amharodrwydd gan landlordiaid i dderbyn tenantiaid sy'n derbyn budd-daliadau, yn arbennig mewn perthynas â phryderon yn ymwneud â Thaliadau Uniongyrchol.
- Mae fforddiadwyedd yn broblem arwyddocaol mewn rhannau o Wynedd o ran perchen-feddiannaeth a rhentu preifat. Mae lefelau incwm isel a dibynadwyedd ar fudd-daliadau gan bobl sydd angen tŷ yn gwaethygu'r broblem ymhellach. Mae diffygion arwyddocaol rhwng cyfraddau Lwfans Tai Lleol a lefelau rhentu preifat cyfartalog.
- Bydd yr effaith bresennol ac i'r dyfodol o ran diwygio lles a osodwyd yn erbyn sefyllfa anodd yn wyneb yr hinsawdd economaidd yn parhau i beri heriau penodol ac yn golygu ei bod yn bwysicach fyth bod gwasanaethau i'r rheini sydd mewn perygl o fod, neu yn, ddigartref, mor effeithiol ag y bo modd.
- Mae angen uchafu mynediad i dai cymdeithasol ar gyfer pobl sy'n ddigartref neu dan fygythiad o fod yn ddigartref.
- Mae angen adolygu'r cynnig i landlordiaid er mwyn sicrhau bod cynnig cynhwysfawr a chystadleuol yn cael ei ddatblygu i landlordiaid sy'n galluogi cleientiaid nid yn unig i gael mynediad i'r sector rhentu preifat, ond hefyd i gynnal y llety hwn yn llwyddiannus. Byddai hyn yn hollbwysig yn sgil datblygiad Wylfa.
- Mae angen datblygu amrediad o ddewisiadau tai fforddiadwy ar gyfer pobl sengl o dan 35 mlwydd oed; gall hyn gynnwys cynlluniau lletya, rhannu tai a darpariaeth â chefnogaeth.
- Mae lefelau uchel o alw am lety â chefnogaeth. Byddai asesiad anghenion ffurfiol yn cynnig dealltwriaeth gynhwysfawr o'r angen am wasanaethau cymorth yn ymwneud â thai ar draws Gwynedd, a fyddai wedyn yn hysbysu strategaeth gomisiynu gadarn.

## Anghenion Grwpiau a Adnabuwyd

- Mae pobl ifanc yn cael eu cynrychioli ormod yn yr ystadegau digartrefedd a data cefnogi pobl, o gymharu â data poblogaeth, sy'n awgrymu diffyg dewisiadau tai fforddiadwy ac addas i bobl ifanc. Awgryma hefyd bod pobl ifanc mewn mwy o berygl o fod yn ddigartref.
- Adnabu Awdit Anghenion Iechyd Pobl Ddigartref Gogledd Cymru bod gan nifer o'r bobl sy'n cysgu ar y stryd broblemau iechyd meddwl (91%) ac nad oedd y mwyafrif o'r rhain yn teimlo bod eu hanghenion iechyd meddwl yn cael eu cwrdd gan wasanaethau. Adnabu ymgynghoriad a gynhaliwyd drwy gydol yr Adolygiad ddiffyg ymgysylltiad gan wasanaethau iechyd meddwl, gyda'r gwasanaethau ond yn ymwneud â'r achosion unwaith yr oedd y cleient mewn argyfwng.
- Mae nifer uchel iawn o achosion cymhleth, gan gynnwys pobl sengl a theuluoedd gydag anghenion niferus a heriol. Mae angen cael dealltwriaeth feintiol ac ansoddol gwell am y materion hyn, ynghyd â dealltwriaeth ynglŷn ag yw'r ddarpariaeth gyfredol yn cwrdd ag anghenion y cwsmeriaid hyn.

- Bu cynnydd yn nifer y bobl a gafodd eu troi allan o dai cymdeithasol (CCG) o ganlyniad i ôl-ddyledion rhent. Mae'n hanfodol bod tenantiaid tai cymdeithasol yn gallu cael mynediad at gyngor ar ddyledion ac arian, a dylid defnyddio llwybrau cyfeirio gyda Chyngor ar Bopeth yn llawn. Mae angen adolygu protocolau ar y cyd gyda phartneriaid Cymdeithasau Tai, yn enwedig wrth edrych i leihau effaith Credyd Cynhwysol ar ôl-ddyledion rhent.

# Heriau i'r Dyfodol

Er y cafwyd cryn lwyddiant ar atal digartrefedd yng Ngwynedd, mae nifer o ffactorau a allai o bosib effeithio ar nifer y bobl sy'n wynebu digartrefedd. Mae'n bwysig bod y rhain yn cael eu cydnabod a, ble bynnag y bo modd, bod gwasanaethau yn cael eu gwella er mwyn lleihau'r effaith negyddol ar bob un o'r ffactorau.

## Cenedlaethol

- Yr effaith barhaus ar yr hinsawdd economaidd, pwysau ariannol a dyledion personol.
- Pwysau ariannol ar gyllidebau llywodraeth leol a gwasanaethau digartrefedd, gan gynnwys ansicrwydd ynghylch yr arian Digartrefedd cyfredol a symud i ariannu hyblyg.
- Mae nifer o'r gwasanaethau sy'n cynnal pobl yn eu tenantiaethau eu hunain neu'n darparu dewisiadau llety amgen yn cael eu hariannu drwy Gefnogi Pobl. Mae'n bwysig cydnabod y byddai unrhyw leihad yn yr arian yn cael effaith arwyddocaol ar lefelau digartrefedd i'r dyfodol.
- Gallai lleihad yn nifer y tai rhentu cymdeithasol drwy werthiant hawl i brynu hanesyddol, ynghyd â lleihad mewn llefydd gwag, arwain at lai o lety ar gael i'r rheini ar y gofrestr tai.
- Mae Diwygio Lles eisoes wedi dechrau cael effaith ar lefelau digartrefedd, ac mae'n debygol bod newidiadau diwygio lles pellach a adnabuwyd o fewn yr Adolygiad yn parhau i effeithio ar allu unigolion i gwrdd â'u costau tai. Yn benodol, mae cyflwyniad Credyd Cynhwysol wedi arwain at gynnydd mewn ôl-ddyledion rhent ymysg tenantiaid cymdeithasol, ac mae hyn yn debygol o gynyddu, ac o bosib arwain at gynnydd mewn pobl yn cael eu troi allan, fel y tystiwyd mewn ardaloedd eraill yng Nghymru a Lloegr.
- Gallai pwysau ariannol parhaus ar bobl arwain at orlenwi a chwalu perthnasau teuluol.
- Rhentu Doeth Cymru - gall y gofynion cynyddol ar landlordiaid barhau i arwain at rai landlordiaid, gan gynnwys ar raddfa lai, neu landlordiaid 'damweiniol' yn dewis gwerthu eu heiddo, gan leihau nifer yr eiddo rhentu preifat sydd ar gael ar gyfer cleientiaid Datrysiadau Tai.
- Byddai cael gwared ar fwriadoldeb i deuluoedd digartref erbyn 2019 yn cael effaith ar wasanaethau, gydag angen i ddod o hyd i ddewisiadau llety addas i deuluoedd gydag anghenion cymhleth a niferus yn aml, ynghyd â hanes tenantiaeth wael, yn rhoi pwysau ar y tîm Datrysiadau Tai.
- Byddai cynnydd mewn cyfraddau morgais yn arwain at gynnydd yn y bobl nad ydynt yn gallu cwrdd â thaliadau eu morgais, gyda chynnydd tebygol mewn adfeddiannu, yn cynnwys perchnogion tai a landlordiaid prynu i osod.
- Diwedd ar forgeisi llog yn unig - mae'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn amcangyfrif y bydd 600,000 o forgeisi llog yn unig wedi cyrraedd diwedd eu cyfnod erbyn 2020 - ac nid oes gan hanner y benthycwyr hyn fodd o dalu'r ddyled yn ôl. Mae disgwyl i draean o'r diffygion fod yn fwy na £50,000.

## Rhanbarthol

- Mae poblogaeth sy'n heneiddio yn gofyn am dai a chefnogaeth briodol i atal cynnydd mewn digartrefedd ymysg pobl hŷn.
- Mae'r cynnydd cenedlaethol ym mhoblogaeth carchardai yn cynyddu risg pobl o golli eu cartref tra maent yn y ddalfa. Mae'r carchar newydd yn Wrecsam yn dueddol o arwain at gynnydd mewn pobl sy'n gadael carchar yn cael mynediad at y ddarpariaeth gwasanaeth yng Ngwynedd.

## Lleol

- Mae diffyg llety un ystafell wely ac, yn benodol, dewisiadau tai fforddiadwy ar gyfer pobl o dan 35 mlwydd oed, yn debygol o arwain at gynnydd mewn pobl sengl nad ydynt yn gallu datrys eu problemau tai eu hunain. Bydd hyn yn arwain at fwy o alw gan y grŵp cwsmeriaid hwn ar y gwasanaeth Datrysiadau Tai a gwasanaethau cymorth a chyngor eraill.
- O 1 Ebrill 2018, bydd gofyn i unrhyw eiddo a rentir yn y sector rhentu preifat yn arferol i fod â gradd perfformiad ynni E neu uwch ar Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC). Bydd y rheoliadau yn dod i rym i lety gosod newydd ac wrth adnewyddu tenantiaethau o 1 Ebrill 2018, ac i bob tenantiaeth bresennol ar 1 Ebrill 2020. Bydd gan hyn effaith arwyddocaol ar Wynedd, o ystyried bod llawer o'r llety rhentu preifat yn y Sir yn hŷn, ac ni fyddant yn cwrdd â'r safonau gofynnol.
- Mae problemau fforddiadwyedd a'r mynediad cyfyngedig i lety rhentu preifat, gan gynnwys dewisiadau llety a rennir, yn ei gwneud yn gynyddol anoddach i'r gwasanaeth Datrysiadau Tai allu dod o hyd i ddewisiadau tai fforddiadwy a chynaliadwy i gleientiaid. Oni bai bod llety fforddiadwy ar gael, rhagwelir y bydd digartrefedd yn parhau i gynyddu.
- Bydd Wylfa Newydd yn creu galw ychwanegol am dai gan hyd at 8,700 o adeiladwyr ar ei uchaf yng nghanol y 2020au. Bydd galw arwyddocaol am dai ychwanegol dros y cyfnod adeiladu a thu hwnt, sy'n debygol o effeithio ar y rhai mwyaf bregus, ac achosi dadleoliad posib yn y sector rhentu preifat.

# Camau Nesaf

I sicrhau bod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adolygiad hwn yn adlewyrchiad gwir o ddigartrefedd yng Ngwynedd, bydd yr adolygiad ar gael i bob budd-ddeiliad a'r cyhoedd ehangach er ymgynghoriad.

Yn dilyn yr adolygiad hwn ac ymatebion i'r ymgynghoriad, mae gofyn i'r Cyngor greu a chyhoeddi Strategaeth Ddigartrefedd. Mae Cyngor Gwynedd yn cydweithio ag Awdurdodau Lleol eraill ledled Gogledd Cymru i greu Strategaeth Ddigartrefedd Ranbarthol. Cefnogir hyn gan Gynllun Gweithredu Darpariaeth Leol i ymateb i'r problemau yng Ngwynedd a adnabuwyd yn yr Adolygiad Digartrefedd.

Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda'i bartneriaid i atal digartrefedd yng Ngwynedd, ac mae'n gweithio gydag Awdurdodau cyfagos i ddatblygu dulliau a mentrau cyfun i atal a lleihau digartrefedd ar draws Gogledd Cymru.